



CFfi CYMRU WALES YFC

Polisi a Chanllawiau
Cydraddoldeb ac
Amrywiaeth

Mabwysiadwyd
XXXXX

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CFFI Cymru

Datganiad ynghylch bwriad

Rydym ni'n annog pob person ifanc 10 - 26 mlwydd oed i ymaelodi â'r CFFI ac yn eu croesawu, beth bynnag fo'u cefndir, yn cynnwys anabledd, rhyw (rhywedd), ailbennu rhywedd, **eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil**, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadaeth rywiol ac oedran. Mae'r CFFI wedi ymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth trwy ddarparu cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrthwahaniaethol ar gyfer bob aelod a darpar aelod, bob aelod cysylltiol, gwestai a gwirfoddolwr.

Ein cod cydraddoldeb

Rydym yn darparu amgylchedd diogel sy'n caniatáu i'n holl aelodau ffynnu a ble caiff bob cyfraniad ei werthfawrogi. Rydym yn sicrhau fod cynhwysiant yn rhan anhepgor o'n rhaglen o weithgareddau ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pob aelod at ein dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn credu bod gan bawb hawl i gael eu trin yn deg a byddwn yn cydweithio ac eraill i wella ein gwybodaeth am faterion arferion gwrthwahaniaethol, hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth a'n dealltwriaeth o hynny, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Bydd unrhyw gwynion y byddwn yn eu derbyn am ein dull o weithredu yn cael sylw mewn modd proffesiynol a phrydlon.

Ni fyddwn yn trin ein haelodau yn deg ar sail anabledd, rhyw (rhywedd), ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadaeth rywiol ac oedran.

Hygyrchedd

Mae gwybodaeth amdanom ni ar gael trwy ein hysbysebion lleol, taflenni gwybodaeth a'n gwefan, neu trwy gysylltu â Chanolfan CFFI Cymru neu swyddfa sirol eich Ffederasiwn CFFI lleol.

Byddwn yn defnyddio manau cyfarfod lleol sy'n hygyrch i bobl ifanc ac yn gwneud newidiadau rhesymol ar gyfer pobl ifanc 10-26 mlwydd oed sy'n anabl, fel y gallant ymaelodi ac elwa o fuddion y CFFI. Oherwydd lleoliad nodweddiadol clybiau ffermwyr ifanc, mae'r dewis o fannau cyfarfod sydd ar gael i ni mewn llawer o bentrefi gwledig yn gyfyngedig, ac yn yr achosion hynny, byddwn yn ystyried dewisiadau posibl o fewn y lleoliad presennol a dewisiadau eraill er mwyn addasu ar gyfer aelodau sy'n ymaelodi â'r clwb. Bydd swyddogion y CFFI yn ystyried anghenion aelodau wrth gynllunio gweithgareddau a gwneud penderfyniadau, a chydweithio â rhieni ac asiantaethau eraill i gynorthwyo unigolion i gyfranogi yn y gweithgareddau hyn a drefnir gan y CFFI.

Pan fydd aelodau newydd yn ymaelodi, bydd yn ofynnol iddynt lenwi ffurflen ymaelodi a gaiff ei thrafod ymhlith swyddogion y clwb er mwyn asesu gofynion yr aelodau o ran gallu cyfranogi a sut gallant gychwyn datrys y materion hyn yn eu clwb. Wrth greu'r cynllun cymorth hwn, byddwn yn cynnwys y rhieni ac asiantaethau allanol os bydd hynny'n ofynnol, er mwyn sicrhau y caiff yr aelod ei gynorthwyo'n llawn ac i ganiatáu i'r clwb deimlo'n hyderus y gallant gynnwys yr aelod yn eu gweithgareddau.

Iechyd a Diogelwch

Mae iechyd a diogelwch ein holl aelodau yn hollbwysig i ni, ac yn ein hasesiadau o risgiau, byddwn yn cydnabod y gwahanol anghenion sydd gan aelodau.

Rhaglen y Clwb

Mae rhaglenni a gweithgareddau'r CFFI yn annog aelodau i ddatblygu ymwybyddiaeth ohonynt hwy eu hunain ac ymwybyddiaeth o eraill hefyd. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- wneud i aelodau deimlo eu bod yn werthfawr a theimlo'n gadarnhaol amdanynt hwy eu hunain
- caniatáu i aelodau gyfrannu at y gwaith o gynllunio'r rhaglen
- gwneud ein gorau glas sicrhau fod aelodau yn cael mynediad cyfartal at raglenni a gweithgareddau
- cydnabod yr amrywiaeth o sgiliau a galluoedd sydd gan aelodau, ac ymgorffori hyn yn ein rhaglen gweithgareddau
- osgoi defnyddio stereoteipiau neu ddelweddau difriol
- creu amgylchedd ble mae'r naill yn parchu ac yn goddef y llall
- helpu aelodau i ddeall fod ymddygiad a sylwadau gwahaniaethol yn niweidiol ac yn annerbyniol
- cynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae staff cyflogedig a gwirfoddolwyr megis swyddogion ac arweinyddion y clybiau yn gweithio yn unol â gofynion Polisi Cyflogaeth Gyfartal CFFI Cymru. Cynigir hyfforddiant i swyddogion ein clybiau i sicrhau eu bod yn gwybod beth yw eu dyletswyddau cyfreithiol a chael cyfle i rannu syniadau ynghylch cynhwysiant ac amrywiaeth.

Partneriaeth â rhieni a gwarcheidwaid

Mae'r CFFI yn ceisio creu amgylchedd dymunol a chyfeillgar ble ball rhieni a gwarcheidwaid deimlo y gallant gyfathrebu a lleisio'u barn yn ddirwystr. Pan fydd aelod yn ymaelodi â'r CFFI, byddwn yn cydweithio â rhieni i sicrhau y caiff anghenion yr aelod eu diwallu'n effeithiol, yn cynnwys anghenion meddygol, diwylliannol a dietegol. Yna, trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn cyfathrebu â rhieni ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gylchlythyrau, hysbysiadau a thafenni. Caiff unrhyw newidiadau mewn polisi eu cyfathrebu i rhieni a gwarcheidwaid trwy law'r CFFI.

Gwerthfawrogi amrywiaeth

Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan ein haelodau, rydym ni'n croesawu amrywiaeth ein haelodaeth oherwydd mae hynny'n ysbrydoli rhaglen gyfoethog o weithgareddau, o lefel y clybiau i'r lefel genedlaethol, ac yn y pen draw, bydd hynny'n sicrhau cyfleoedd mwy cyffrous ar gyfer datblygiad personol ein haelodau.

Mabwysiadwyd: xxxxx

Canllawiau i Glybiau ynghylch Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Datganiad ynghylch bwriad

Mae'r CFFI yn croesawu bob person ifanc 10-26 mlwydd oed, beth bynnag fo'u cefndir, yn cynnwys anabledd, rhyw (rhywedd), ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadaeth rywiol ac oedran. Mae'r CFFI wedi ymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth trwy ddarparu cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrthwahaniaethol ar gyfer bob aelod a darpar aelod, bob aelod cysylltiol, gwestai a gwirfoddolwr.

Nod:

Mae'r CFFI yn ceisio:

- croesawu ac annog aelodau newydd i ymaelodi
- darparu amgylchedd diogel sy'n caniatáu i'n holl aelodau ffynnu a ble caiff bob cyfraniad ei werthfawrogi
- cynnwys a gwerthfawrogi cyfraniad pob aelod at ein dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- gwella ein gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag arferion gwrthwahaniaethol, hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth, a'n dealltwriaeth o hynny
- sicrhau fod cynhwysiant yn rhan anhepgor o weithgareddau ein rhaglen
- darparu gwybodaeth gadarnhaol sydd ddim yn cynnwys stereoteipiau am rolau rhywedd, cyfeiriadaeth rywiol, grwpiau ethnig a diwylliannol amrywiol, a phobl sydd ag anableddau
- sicrhau fod y CFFI yn hygyrch i bob person ifanc 10-26 mlwydd oed sy'n dymuno ymaelodi
- sicrhau fod pawb yn cael yr hawl i gael eu trin yn gyfartal
- cydweithio ag eraill i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol
- ymateb yn gyflym i unrhyw gwynion am ein dull o weithredu

Y fframwaith cyfreithiol – Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth i rym ar y 1af o Hydref 2010.

- Mae'r Ddeddf yn cyfuno gofynion y gyfraith ynghylch cydraddoldeb y mae angen i sefydliadau preifat, cyhoeddus a'r sector gwirfoddol eu dilyn – symleiddio pethau, dileu anghysonderau a sicrhau ei bod hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gofynion.
- Mae'n disodli'r holl ddeddfwriaeth oedd yn bodoli'n barod ynghylch cydraddoldeb, yn cynnwys:
 - Deddf Cyflog Cyfartal 1970
 - Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
 - Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
 - Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Mae'n effeithio ar gyfraith gyflogaeth yn y gweithle, ar ddarparu gwasanaethau a rhedeg clybiau.

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl rhan gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchoddedig. Maent yn cynnwys:

- Anabledd
- Rhyw (rhywedd)
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadaeth rywiol
- Oedran (daw hyn i rym o'r 1af o Hydref 2012)

Mae'n cryfhau gallu'r gyfraith i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghyfartaledd.

****I gadarnhau****

O dan y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon i bobl wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu ar neu erlid pobl eraill oherwydd fod ganddynt unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Ceir amddiffyniad rhag gwahaniaethu hefyd lle canfyddir fod gan rywun un o'r nodweddion gwarchoddedig neu os ydynt yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchoddedig.

Clybiau Ffermwyr Ifanc yn unol â diffiniad y Ddeddf

Fel sefydliad gwirfoddol, mae'n rhaid i ni weithredu yn unol â gofynion deddfwriaeth ynghylch cydraddoldeb, yn union fel y byddem yn achos unrhyw ddeddfwriaeth arall. Nid oes unrhyw rannau o'r ddeddf y gellir eithrio'r sefydliad o'u gofynion, felly mae'n bwysig i ni ddeall beth ddywed y gyfraith am gydraddoldeb a gwahaniaethu.

Caiff Deddf Cydraddoldeb 2010 ei weithredu'n wahanol, yn dibynnu ar y math o sefydliad neu fusnes y mae'n berthnasol iddo. Er enghraifft, mae gofynion y Ddeddf yn wahanol i fusnesau a chwmnïau'r sector preifat. O dan y Ddeddf, gallai Clwb Ffermwyr Ifanc gael ei ystyried yn ddarparwr gwasanaethau gwirfoddol, cymdeithas neu'r ddau hyd yn oed. Os oes gan eich clwb gytundeb lefel gwasanaeth â sefydliad o'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar ran y sector cyhoeddus, mae angen cydymffurfio â gofynion ychwanegol. Os felly, gwaith ar y cyd â'ch darparwr gwasanaeth, eich Ffederasiwn Sirol neu CFFI Cymru, h.y. os yw eich Ffederasiwn yn cael arian grant gan y cyngor lleol. Efallai y bydd yn ofynnol i chi weithio yn unol â pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y cyngor er mwyn gallu cael arian.

Clybiau Ffermwyr Ifanc fel darparwr gwasanaethau

Fel sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc yng nghefn gwlad, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amlinellu sut ddylech chi drin pobl wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, ac mae'n argymhell y dylai trin pobl yn deg fod yn sail i bob agwedd o hyn. Mae hyn yn golygu peidio gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu nodweddion gwarchoddedig (rhestrir hwy ar dudalen 1) trwy wrthod darparu gwasanaeth iddynt, neu ddarparu gwasanaeth salach neu gynrig gwasanaeth â thelerau sy'n wahanol i'r rhai y byddech chi'n eu cynrig i bobl eraill. Dan y Ddeddf, byddai eich aelodau yn cael eu hystyried yn ddefnyddwyr gwasanaethau.

Fel darparwr gwasanaethau, mae'n rhaid i'r CFFI fabwysiadu polisi cydraddoldeb a hysbysu'r holl swyddogion a'r aelodau amdano, ac ystyried a oes angen rhagor o hyfforddiant.

Clybiau Ffermwyr Ifanc fel Cymdeithas

O dan y Ddeddf, mae cymdeithas yn sefydliad gwirfoddol neu gymunedol:

- Sydd â grŵp o 25 aelod neu ragor, ac
- Sydd â rheolau (nid rhai ffurfiol neu ysgrifenedig o reidrwydd) sy'n rheoleiddio pwy all fod yn aelod a cheir rhyw fath o broses o ddewis pobl i fod yn aelodau, megis enwebu neu bleidleisio i dderbyn aelodau cysylltiol, neu aelodau newydd i'w croesawu i'r clwb.

Byddai CFFI Cymru yn annog y CFFI i sicrhau fod 'Croesawu aelodau newydd' yn cael ei gynnwys yn agenda bob clwb, yn hytrach nag aelodau presennol yn pleidleisio i dderbyn aelodau newydd. Bwriad hyn yw sicrhau na ellir camddefnyddio'r system bleidleisio ac i atal aelodau'r CFFI rhag dewis pwy all a phwy na all ymaelodi â'r clwb ar sail y ffaith eu bod yn eu hoffi neu beidio. **Fodd bynnag, os yw eich clwb yn defnyddio system bleidleisio, mae'n rhaid i chi sicrhau na wnaiff eich clwb wahaniaethu, aflonyddu ar neu erlid o ran:**

- y trefniadau i ddewis neu wrthod aelodau newydd a thelerau ac amodau ymaelodi
- sut bydd eich clwb yn rhoi neu yn atal buddion neu wasanaethau i'r aelodaeth, yn diddymu neu'n amrywio telerau aelodaeth i aelodau neu aelodau cysylltiol
- y trefniadau sy'n digwydd i benderfynu pwy ellir ei wahodd fel gwestai.

Fel cymdeithas, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i aeloda a darpar aelodau'r CFFI, swyddogion y clybiau, gwirfoddolwyr, aelodau cyswllt, gwesteion a darpar westeion, a rhieni.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i'r clybiau hynny sydd â llai na 25 aelod, ond byddai CFFI Cymru yn argymhell yn gryf y dylech chi ddilyn yr arferion da yn y canllaw hwn i atal unrhyw faterion yn ymwneud â gwahaniaethu neu driniaeth annheg.

Cod cydraddoldeb y CFFI

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau neu aelodau presennol a darpar aelodau, swyddogion y clybiau, gwirfoddolwyr, aelodau cyswllt a gwesteion rhag gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchoddedig (anabledd, rhyw (rhywedd), ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadaeth rywiol ac oedran). Ar sail hyn, ni wnaiff swyddogion, arweinyddion, aelodau a gwirfoddolwyr y CFFI:

- Aflonyddu ar neu erlid defnyddwyr gwasanaethau, aelodau, darpar aelodau, aelodau cyswllt neu westeion
- Gwahaniaeth yn erbyn unrhyw un sy'n gysylltiedig ag unigolyn sydd â nodweddion gwarchoddedig. E.e. gwahaniaethu yn erbyn aelod oherwydd mae ei frawd yn anabl, yn hoyw ac ati.
- Gwahaniaethu'n anuniongyrchol trwy weithredu polisi neu weithdrefn sy'n anfanteisio neu a allai anfanteisio aelod sydd â nodwedd warchoddedig.
- Cymryd yn ganiataol yn anghywir fod gan unigolyn nodwedd warchoddedig. Er enghraifft, os bydd swyddog clwb yn meddwl fod gwestai yn edrych yn rhy ifanc i yfed alcohol ac yn dweud wrtho am adael, byddai hynny yn enghraifft o wahaniaethu. Mae'n bwysig sicrhau fod gennych chi'r ffeithiau cyn gweithredu mewn sefyllfa benodol.

- Trin pobl yn wael oherwydd maent wedi cwyno am wahaniaethu neu wedi helpu rhywun arall i gwyno, neu wneud unrhyw beth i gynnal ei hawliau ei hun neu hawliau rhywun arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Gwrthod aelodaeth i rywun. Nid yw hynny'n cynnwys y sawl sydd wedi bod yn destun ymchwiliadau yn ymwneud â disgyblu neu ddiogelu, ac y mae eu haelodaeth wedi cael ei ddirymu i sicrhau eu diogelwch hwy a diogelwch pobl eraill.

Bydd y CFFI yn ymdrechu i:

- wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl 10-26 mlwydd oed fel y gallant ymaelodi ac elwa o fuddion y CFFI cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl ac i'r un safon â'r buddion a gynigir i aelodau nad ydynt yn anabl.
- Ystyried effaith penderfyniadau'r clwb a pha un ai a allai hyn effeithio'n fwy negyddol ar bobl sydd â nodwedd warchoddedig benodol nag ar bobl sydd heb nodwedd o'r fath.

Hygyrchedd

Mae'r CFFI yn ceisio sicrhau fod ein clybiau yn hygyrch i bob person ifanc 10-26 mlwydd oed sy'n dymuno ymaelodi. Byddwn ni'n ceisio gwneud hyn trwy:

- Hysbysebu'r CFFI yn helaeth yn y gymuned leol.
- Cynnal tudalen we â dolenni o'r Ffederasiwn Sirol a CFFI Cymru
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu am y CFFI a'u digwyddiadau.
- Adlewyrchu amrywiaeth yr aelodau yn ein deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, a darparu gwybodaeth mewn iaith eglur a chryno, boed hynny yn llafar neu'n ysgrifenedig.
- Sicrhau fod bob rhiant yn cael ei hysbysu am ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cydweithio'n agos â'r rhiant/gofalwr ac asiantaethau eraill pan fo hynny'n ofynnol ynghylch datblygiad aelod unigol.
- Sicrhau fod y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cyd-fynd â pholisïau eraill CFFI Cymru megis Diogelu, Safonau Ymddygiad, y Polisi Gwrthfwlio, y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Polisi Cyflogaeth.

Gwybodaeth a hysbysebu

Bydd y CFFI yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu mewn gwybodaeth a hysbysebion, er enghraifft, wrth ddewis geiriad a delweddau ar gyfer crysau clybiau neu i ddylunio posteri ar gyfer digwyddiadau. Wrth ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i aelodau, byddwn yn ystyried eu hanghenion a pha un ai a oes angen gweithredu unrhyw fesurau amgen, er enghraifft, argraffu'r wybodaeth mewn print bras neu ei darparu yn electronig, megis yn achos ffurflen ymaelodi.

Byddwn yn sicrhau nad yw cynnwys ein gwefan yn wahaniaethol ac y caiff addasiadau rhesymol eu gwneud i sicrhau fod y wefan yn hygyrch i bobl anabl.

Enghraifft o wahaniaethu:

Os bydd rhywun sy'n hysbysebu gwasanaeth (er enghraifft, trwy godi poster ar ffenestr siop) yn datgan yn glir nad oes croeso i bobl sy'n perthyn grŵp ethnig penodol, byddai hynny'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail hil yn erbyn pobl a allai fod wedi ystyried defnyddio'r gwasanaeth, ond sy'n cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd yr hysbyseb. (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau - <http://www.equalityhumanrights.com/advice-andguidance/service-providers-guidance/your-responsibilities-when-delivering-services/advertisements-andmarketing/>)

Anabledd

Mae'r CFFI yn gweithio i chwalu'r rhwystrau y gall pobl ifanc anabl eu hwynebu wrth geisio cyrchu gweithgareddau clwb, ac mae'n deall y gall clybiau wneud ystyriaethau ychwanegol i sicrhau y gall pobl ifanc anabl gyfranogi. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Ystyried manau cyfarfod y clwb i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ifanc anabl, yn cynnwys y fynedfa, arwyddion, cyfathrebu a thoiledau. Cyfrifoldeb pwyllgor y clwb yw dewis man cyfarfod addas yn y lle cyntaf.
- Ystyried anghenion darpar aelodau anabl sydd ag ystod o namau, megis pobl sydd â nam ar y golwg, nam ar y clyw, nam symudedd neu anabledd dysgu.
- Ystyried anghenion aelodau sydd ag anghenion ychwanegol o ran ymddygiad, megis ADHD neu Syndrom Asperger.
- Cydweithio â sefydliadau ac asiantaethau lleol a chenedlaethol, yn cynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol neu addysgol, rhieni a theuluoedd i geisio cymorth i sicrhau fod unrhyw addasiadau rhesymol wedi cael ei wneud i alluogi person ifanc anabl i ymaelodi a chyfranogi.
- Adolygu ein dulliau o wneud pethau, ac os byddwn yn canfod eu bod yn creu rhwystrau i aelodau anabl, byddwn yn ystyried sut gallwn ni wneud newidiadau.

Enghraifft

Mae un o anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar berson ifanc sy'n aelod o glwb., ac weithiau bydd yn camddeall cyfarwyddiadau os na fyddant yn cael eu mynegi mewn iaith uniongyrchol iawn. Mae hyn yn golygu bydd angen rhoi cyfarwyddiadau iddo am yr ail waith a gwneud hynny mewn ffordd wahanol. Mae swyddogion y clwb yn derbyn nad fydd y person ifanc dan sylw yn gwrthod cydweithredu os na fydd bob amser yn gwneud beth y gofynnir iddo'i wneud y tro cyntaf. Wrth ymddwyn fel hyn, mae'r clwb wedi gwneud addasiad rhesymol i safonau ei ymddygiad.

Pe bai swyddogion y clwb yn yr achos hwn wedi penderfynu fod ymddygiad y person ifanc yn achosi anawsterau mwy sylweddol i aelodau eraill neu swyddogion/arweinyddion cyfrifol y clwb, a bod yr holl addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud, byddai'n rhaid i'r CFFI gyfiawnhau'n wrthrychol eu penderfyniad i atal y person ifanc rhag mynychu. Bydd angen i'r clwb gadw nodiadau a chofnodion o'r dechrau, a cheisio cyngor yn gynnar gael Dîm Cydraddoldeb eu Ffederasiwn, swyddfa'r Ffederasiwn Sirol a CFFI Cymru.

Nid oes angen i'r CFFI wneud mwy na'r hyn sy'n bosibl **ac yn ymarferol o fewn rheswm**. Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu, ymhlith ffactorau eraill, ar faint a natur eich clwb a natur y cyfleusterau neu'r gweithgareddau rydych chi'n eu darparu. Nid oes proses neu weithdrefn ffurfiol a gydnabyddir gan y gyfraith yn bodoli i bennu beth sy'n 'bosibl o fewn rheswm', dylai'r CFFI ymchwilio i'r holl bosibiliadau a chadw cofnod o hynny, yn cynnwys y costau. Mae bob sefyllfa yn wahanol ac mae'n rhaid eu hystyried fesul un. Os gall person anabl brofi fod rhwystrau yn bodoli y dylai fod wedi cael eu nodi ac y gallai addasiadau rhesymol fod wedi cael eu gwneud, gall fynd ag achos i'r llys i hawlio iawndal, a gellir gorchymyn i'r CFFI dalu iawndal iddo a gwneud y newidiadau rhesymol.

Mae'n bwysig canfod o'r dechrau beth yw anghenion aelodau newydd. Pan fydd aelodau newydd yn ymuno, bydd yn ofynnol iddynt lenwi ffurflen ymaelodi, ac os bydd hynny'n ofynnol, ffurflen ychwaegol a gaiff ei thrafod rhwng swyddogion y clwb a rhieni er mwyn asesu gofynion yr aelodau o ran gallu cyfranogi a sut gallant gychwyn datrys y materion hyn yn eu clwb. Wrth lunio'r cynllun cymorth hwn, mae'n ddefnyddiol cynnwys y rhieni yn y gwaith fel bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r CFFI, sut caiff ei redeg a beth yw rheolau'r clwb, ac egluro beth sy'n ymddygiad derbynol a beth sy'n annerbyniol. Pan fydd angen hynny, cofiwch gydweithio ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau y caiff yr aelod ei gynorthwyo'n llawn ac i ganiatau i'r clwb deimlo'n hyderus y gallant gynnwys yr aelod yn eu gweithgareddau. Os bydd aelod sydd ag anghenion ychwanegol penodol yn dymuno ymaelodi neu eisoes wedi ymaelodi ac ni ellir darparu'r cymorth sy'n ofynnol oherwydd gallu'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y clwb, gallai hynny arwain at wrthod iddo/iddi ymaelodi.

Iechyd a Diogelwch

Bydd y CFFI yn dilyn y polisi Iechyd a Diogelwch i sicrhau y gwneir asesiadau o risgiau ynghylch bob aelod, gwestai a gwirfoddolwr, yn cynnwys y sawl sydd â nodweddion gwarchoddedig megis anabledd, oedran neu feichiogrwydd, a bydd unrhyw newidiadau gofynnol yn cael eu gwneud.

Rhaglen y Clwb

Mae rhaglenni a gweithgareddau'r CFFI yn annog aelodau i ddatblygu ymwybyddiaeth ohonynt hwy eu hunain ac ymwybyddiaeth o eraill hefyd. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Wneud i aelodau deimlo eu bod yn werthfawr a theimlo'n gadarnhaol amdanynt hwy eu hunain
- Caniatáu i aelodau gyfrannu at y gwaith o gynllunio'r rhaglen.
- Sicrhau fod aelodau yn cael mynediad cyfartal at raglenni a gweithgareddau.
- Cydnabod yr amrywiaeth o sgiliau a galluoedd sydd gan aelodau, ac ymgorffori hyn yn y rhaglen gweithgareddau.
- Osgoi defnyddio stereoteipiau neu ddelweddau difriol.
- Creu amgylchedd ble mae'r naill yn parchu ac yn goddef y llall.
- Helpu aelodau i ddeall fod ymddygiad a sylwadau gwahaniaethol yn niweidiol ac yn annerbyniol.
- Trefnu rhaglenni amrywiol ar gyfer clybiau sy'n rhoi cyfle i aelodau ddod yn gyfarwydd â diwylliannau pobl eraill er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth, er enghraifft, Rhaglen Teithiau'r CFFI.

Hyfforddiant

Mae angen i swyddogion ac arweinyddion clybiau'r CFFI wybod sut i ymddwyn fel na fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd nodwedd warchoddedig. Hyd yn oed os na fydd y sawl sydd wedi dioddef gwahaniaethu yn dwyn achos llys yn erbyn y sefydliad, gall enw da'r CFFI ddioddef. Bydd y CFFI yn cydweithio â'r Ffederasiwn Sirol, CFFI Cymru a darparwyr hyfforddiant lleol i sicrhau fod swyddogion ac aelodau clybiau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Cysylltwch â swyddfa eich Ffederasiwn Sirol neu swyddfa CFFI Cymru i gael cymorth.

Cyflogaeth

Bydd staff cyflogedig a gwirfoddolwyr megis swyddogion ac arweinyddion y clybiau yn dilyn Polisi Cyflogaeth Gyfartal CFFI Cymru.

Defnyddio darparwyr allanol

Bydd y CFFI yn hysbysu unrhyw unigolyn neu gorff allanol sy'n darparu gwasanaethau i ni am ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac yn gofyn iddynt gydymffurfio â gofynion y polisi. (Rydym ni'n atebol yn gyfrifol am weithredoedd ganddynt ble ceir achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid, hyd yn oes os nad oes gennym ni gytundeb ffurfiol â hwy). Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys beirniaid, siaradwyr, hyfforddwyr a chynhyrchwyr.

Cydweithio â rhieni

- Byddwn yn cydweithio â rhieni pan fydd aelod yn ymuno â'r i sicrhau y caiff ei anghenion eu diwallu'n effeithiol.
- Byddwn yn cydweithio â rhieni sicrhau y caiff gwybodaeth ei gyfathrebu eglur â hwy, ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gylchlythyrau, hysbysiadau a thafleuni.

- Caiff rhieni eu hysbysu am unrhyw newidiadau i bolisiâu.
- Rydym yn annog rhieni i gyfranogi yn ein digwyddiadau codi arian a chymdeithasol trwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r CFFI yn ceisio creu amgylchedd dymunol a chyfeillgar ble ball rhieni a gwarcheidwaid deimlo y gallant gyfathrebu a lleisio'u barn yn ddirwystr.
- Byddwn yn cydweithio â rhieni i sicrhau y caiff anghenion meddygol, diwylliannol a dietegol plant eu diwallu.
- Mae ein gwaith yn pontio'r cenedlaethau oherwydd byddwn ni'n cydweithio â rhieni ac ymgynghorwyr i gynorthwyo aelodau.

Gwerthfawrogi amrywiaeth

Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan ein haelodau, rydym ni'n croesawu amrywiaeth ein haelodaeth oherwydd mae hynny'n ysbrydoli rhaglen gyfoethog o weithgareddau, o lefel y clybiau i'r lefel genedlaethol, ac yn y pen draw, bydd hynny'n sicrhau cyfleoedd mwy cyffrous ar gyfer datblygiad personol ein haelodau.

Rhagor o Wybodaeth

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb <http://www.equalityadvisoryservice.com/>

Y Comisiwn Elusennau <http://www.charity-commission.gov.uk/>

Cynghrair Plant Lloegr (CRAE) <http://equalitymattersforchildren.crae.org.uk/>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol <http://www.equalityhumanrights.com/>

Swyddfa Cydraddoldebau y Llywodraeth – Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
<http://www.edf.org.uk>

Cyhoeddiadau defnyddiol

Equality Act 2010: What do I need to know? A quick start guide for voluntary and community sector associations – Swyddfa Cydraddoldebau y Llywodraeth – Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (2010)

Pecyn Cymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (modiwlau ar-lein)
What equality law means for your association, club or society – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011)

Mabwysiadwyd: 30 Mehefin 2013

Rhestr termau

Gwahaniaethu

Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan gaiff unigolyn ei drin yn llai ffafriol nac y cafodd unigolyn arall ei drin, neu'n llai ffafriol nag y byddai unigolyn arall wedi cael ei drin, oherwydd nodwedd warchoddedig.

Dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Os yw person anabl yn wynebu anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl sydd ddim yn anabl, mae dyletswydd i weithredu camau rhesymol i ddiddymu'r anfantais honno trwy (i) newid darpariaethau, meini prawf neu arferion, (ii) addasu, dileu neu ddarparu dull amgen addas o osgoi nodweddion ffisegol a (iii) darparu cymhorthion ychwanegol.

Aflonyddu

Ymddygiad digroeso sydd wedi'i fwriadu i niweidio urddas unigolyn neu'n mae'n achosi hynny, neu mae'n creu amgylchedd sy'n ddiraddiol, yn gwaradwyddo, yn elyniaethus, yn fygythiol neu'n sarhaus.

Mae tri math o aflonyddu:

1. Aflonyddu – oherwydd anabledd, ailbennu rhywedd, hil neu ryw, ac mae hyn bellach yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth, nid cyflogwyr yn unig.
2. Aflonyddu rhywiol – mae hyn yn cynnwys ymddygiad digroeso sy'n rhywiol ei natur, ac yn llafar neu'n ddieiriau megis ystumiau, sylwadau neu gyffwrdd rhywiol.
3. Aflonyddu yn gysylltiedig â gwrthod neu ildio ymddygiad digroeso – mae hyn yn golygu trin defnyddiwr gwasanaeth yn annheg oherwydd mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi gwrthod neu ildio i ymddygiad rhywiol digroeso. Gall darparwr y gwasanaeth neu unigolyn arall ymddwyn yn ddigroeso.

Nid yw aflonyddu yn gysylltiedig â chrefydd neu gyfeiriadedd rhywiol yn cael ei gwmpas yn benodol, ond gallai hynny olygu gwahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn wynebu anfanteision mewn cymhariaeth â'r driniaeth a gaiff defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Bydd hyn yn digwydd pan fydd unigolyn yn gweithredu darpariaeth, maen prawf neu arferion yn yr un modd i'r holl bobl sy'n rhan o'r grwp perthnasol ond mewn modd sy'n peri (neu a fyddai'n peri) anfantais benodol i blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, o'u cymharu â phobl sydd heb y nodwedd honno. (Children England)

Erlid

Peri anfantais i rywun oherwydd mae ef neu hi wedi dwyn achos, neu'n mae'n mynd i ddwyn achos, yn ddiwyll, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall hefyd ddigwydd os bydd unigolyn wedi rhoi tystiolaeth neu rannu gwybodaeth yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol o dan y Ddeddf; wedi gwneud unrhyw beth at ddibenion neu mewn cysylltiad â'r Ddeddf; neu wedi honni fod unigolyn arall wedi gweithredu'n groes i'r Ddeddf. (Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb)

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU

Canolfan CFI Cymru
Llanelwedd
Llanfair ym Muallt
Powys
LD2 3NJ

☎ 01982 553 502

✉ information@yfc-wales.org.uk

www.cfi.cymru

DRAFFET / DRAFFET